**Canllawiau i Gymdeithasau Lleol am ddefnyddio Cyfarfodydd Hybrid**

## 1. Rhagair

1.1 Mae'r pandemig wedi ei gwneud yn ofynnol i'r Undeb estyn allan at yr aelodau a bod yn hygyrch mewn ffyrdd nad oedd yn bosibl yn flaenorol. Mae technoleg gweithio a chyfarfod o bell wedi datblygu'n sylweddol, ac wedi caniatáu i'r Undeb gynnal ei phrosesau democrataidd hyd yn oed yn ystod y cyfnod clo.

1.2 Yr her yn awr yw parhau i harneisio potensial datrysiadau ar-lein i adeiladu ar a chyfoethogi ein trefnu a'n democratiaeth, yn enwedig lle bo llawer wedi cael digon ar fideo-gynadledda i raddau.

1.3 Mae cyfarfodydd hybrid yn cael eu trafod fel yr ateb yn aml, ond mae'n hanfodol bod dealltwriaeth ynghylch ystyr hybrid, sut y gall weithio a'r dewisiadau realistig ar gyfer defnyddio hyn.

1.4 Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth i Gymdeithasau Lleol am y mathau o gyfarfodydd hybrid a ddefnyddir ynghyd â'r ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried er mwyn sicrhau profiad cadarnhaol a chyfranogol.

## 2. Profiad Aelodau

2.1 Yr allwedd i lwyddiant unrhyw fath o gyfarfod yw profiad y rhai sy'n bresennol yng nghyd-destun ein blaenoriaethau i adeiladu a chryfhau cyfranogiad aelodau yn yr Undeb a sicrhau bod yr Undeb yn gweithredu'n ddemocrataidd bob amser.

2.2 Gall cyfarfodydd hybrid fod yn gyfuniad o bresenoldeb corfforol a phresenoldeb rhithiol. Gall hyd fod ar sawl ffurf at ddibenion cyfarfodydd a digwyddiadau'r

Undeb yn ystod y flwyddyn. Mae gan bob un ei fanteision a'i anfanteision i'w hystyried. Y dewis gorau o bell ffordd yw cynnal cyfuniad o gyfarfodydd ffisegol llwyr a rhithiol llwyr lle mae pob un cyfranogwr yn rhannu'r un profiad.

Mae cynnal rhai cyfarfodydd yn ffisegol llwyr ac eraill yn rhithiol llwyr yn ddewis hybrid sy'n cael gwared ar lawer o'r problemau a'r costau'n gysylltiedig â chynnal cyfarfod gydag elfennau wyneb yn wyneb a rhithiol. Mae Cymdeithasau Lleol yn brofiadol wrth drefnu a chynnal y ddau.

Er enghraifft, gan fod cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol yn cynnwys nifer penodol yn bresennol gallech ddewis cynnal pob cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol yn rhithiol a'ch Cyfarfodydd Cyffredinol Arferol/Blynyddol wyneb yn wyneb. Gallai'r ddau ddull feddu ar fanteision ac anfanteision y dylid eu hystyried yn ofalus.

## 3. Ystyriaethau wrth fabwysiadu dull cymysg ffisegol/rhithiol

3.1 Cyn ystyried y gwahanol opsiynau ar gyfer dull cymysg, lle mae rhai cyfranogwyr yn yr ystafell ac eraill yn bresennol yn rhithiol, mae'n bwysig edrych ar yr agweddau technegol y mae angen eu hystyried yn ofalus. Mae pedair elfen allweddol i lwyddiant dull cymysg sef: sain, gweledol, cysylltedd a chynnal y busnes sy'n sicrhau nad yw cyfranogwyr yn teimlo wedi eu difreinio.

### (a) Sain

Sain yw'r elfen sy'n achosi mwyaf o broblemau yn aml. Rydym ni i gyd wedi bod mewn cyfarfodydd lle mae rhywun yn methu cysylltu, neu wedi hysbysu nad ydynt yn medru clywed unrhyw un yn yr ystafell ffisegol pan gynhelir cyfarfod ffisegol yn rhannol a rhithiol yn rhannol.

Tra'i bo'n bosibl prynu unedau fideo-gynadledda bydd yr offer drytaf wedi eu cyfyngu gan eu pellter gweithredu (er enghraifft, ni fydd rhai o'r microffonau drutaf yn rhoi mwy na chwe medr o amrediad sain). Gall symud papurau, codi gwydrau ac ati wrth y bwrdd fod yn broblem sy'n effeithio ar ansawdd cyfarfod a pha mor hawdd yw clywed y trafodion, hyd yn oed wrth ddefnyddio offer â thechnoleg ganslo sŵn.

Efallai bod chwe metr yn swnio fel pellter gweithredu da, ond wrth ystyried y gwagle ar gyfer cyfranogwyr ffisegol, yn enwedig lle bo gofynion diogelwch rhag COVID-19 yn bodoli, mae'n bosibl na fydd yn ddigonol ar gyfer y math o gyfarfod hybrid sy'n cael ei gynnal.

Mae'r ystafell a ddefnyddir yn ffactor mawr sy'n medru effeithio ar y sain hefyd. Bydd ystafell fawr heb unrhyw banelau acwstig, neu ystafell lai gyda nenfwd uchel, yn lleihau'r pellter gweithredu yn ddramatig.

Mae trosglwyddo microffon llaw'n ddewis arall, ond dylid ystyried sut y gallai hyn weithio yng nghyd-destun cynnal y cyfarfod (eto, gellid cael problemau o ran diogelwch rhag COVID-19 wrth basio offer llaw rhwng cyfranogwyr) a gallai gyfyngu ar lif y trafod mewn cyfarfod.

Hyd yn oed os ydych chi'n defnyddio dull ‘un i mewn, pawb i mewn’ lle mae'r holl gyfranogwyr sydd yn yr ystafell hefyd yn y cyfarfod rhithiol trwy gyfrwng eu gliniaduron eu hunain gellir cael oedi gyda'r sain, sy'n medru bod yn rhwystredig i'r rhai sy'n bresennol yn ffisegol. Gall adborth ac adlais fod yn broblem hefyd, hyd yn oed os yw'r rhai sy'n bresennol yn yr ystafell yn defnyddio clustffonau.

Mae lleoliadau sy'n cynnig cyfleusterau fideo-gynadledda fel rhan o'r pecyn yn debygol o fod yn ddrutach i'w llogi. Yn aml bydd y lleoliadau hyn yn defnyddio microffonau wedi eu gosod yn y nenfwd neu nifer o ficroffonau unigol i oresgyn y problemau hyn a sicrhau gwell profiad o ran ansawdd y sain.

Rhowch brawf ar eich offer ymlaen llaw i sicrhau nad oes unrhyw broblemau ag ansawdd y sain.

### (b) Gweledol

Mae profiad gweledol yr holl rai sy'n bresennol yn rhan bwysig o deimlo wedi eu cynnwys. Mae'n hawdd iawn difreinio'r rhai sy'n ymuno yn y cyfarfod yn rhithiol, gan na fyddant yn medru sylwi ar yr holl gonfensiynau cymdeithasol y bydd y rhai'n bresennol wyneb yn wyneb yn medru eu gweld.

Felly mae'n bwysig sicrhau bod y cyfranogwyr yn medru gweld y rhai yn yr ystafell yn ogystal â'u clywed.

Unwaith eto mae unedau fideo-gynadledda â chamerâu ongl lydan ar gael ond efallai y byddant yn dangos nifer cyfyngedig o unigolion sy'n bresennol yn y cyfarfod.

Mae angen ystyried y rhai sy'n bresennol yn ffisegol hefyd. Mae maint a lle y gosodir y sgrin yn bwysig, ynghyd ag ansawdd y delweddau. Bydd offer sy'n defnyddio taflunydd sy'n wynebu'r camera'n arwain at ddelweddau gwan. Os ydych yn cysylltu i offer teledu dylid ystyried maint y sgrin a sut y bydd y rhai pellaf oddi wrth y sgrin yn gweld y delweddau. Yn enwedig os bydd unrhyw gyflwyniadau'n cael eu rhannu ar y sgrin.

Gallai fod yn ddefnyddiol sicrhau bod unrhyw un yn y cyfarfod sy'n siarad yn cael y sylw trwy wneud eu delwedd mor fawr ag y bo'n bosibl i ganiatáu i'r holl gyfranogwyr weld y siaradwr yn glir – arbennig o bwysig i'r aelodau hynny â nam ar eu clyw.

Eto, gallai lleoliadau sy'n cynnig cyfleusterau fideo-gynadledda fod â sgriniau ailadrodd mewn ystafell gyfarfod y gellir eu defnyddio i roi sylw ar y siaradwr mewn maint byw, a bydd ganddynt sgriniau sy'n gweddu maint yr ystafell. Bydd ganddynt gamerâu lluosog neu ongl lydan sy'n medru darparu delwedd o bawb sy'n bresennol.

Rhowch brawf ar eich offer ymlaen llaw i sicrhau nad oes unrhyw broblemau ag ansawdd y delweddau.

**(c) Cysylltedd**

Dylech sicrhau bod lled band digonol ymhob lleoliad ar gyfer pa bynnag fath o gyfarfod hybrid sy'n mynd i'w gynnal bob tro, p'un ai'n ddarlledu llawn neu'n un siaradwr yn ymuno trwy gyfrwng fideo. Wrth drefnu unrhyw leoliad gofynnwch y cwestiwn yn uniongyrchol a rhowch syniad iddynt o'r math o raglen rydych chi'n dymuno ei chynnal. Nid yw Wi-Fi am ddim bob amser yn golygu lled band digonol i gynnal eich cyfarfod ac efallai nad yw'n gysylltiad diogel.

**(d) Gweithredu'r busnes**

Ystyriwch bob cam o'r hyn sy'n cael ei gynllunio – er enghraifft:

**(i) Sut fydd y cyfarfod yn cael ei gadeirio i sicrhau cyfranogiad teg a chydradd?**

A yw'r Cadeirydd yn medru gweld a chlywed pawb? A oes dull ar gyfer gwneud cyfraniadau a holi cwestiynau gan gymryd tro nad yw'n ffafrio un grŵp dros un arall?

**(i) Sut y cynhelir unrhyw bleidlais?**

Cofiwch, yn achos cymysgedd ffisegol/rhithiol, dylid defnyddio un dull ar gyfer yr holl gyfranogwyr. Byddai cymysgedd o ddulliau pleidleisio'n galluogi i'r cyfranogwyr bleidleisio'n ddienw, tra bo pleidleisio drwy godi llaw'n golygu na all y rhai yn y cyfarfod fod yn ddienw.

**(ii) Sut y cedwir cofnod presenoldeb?**

Bydd yn ofynnol cael sgrinlun, rhestr cyfranogwyr a rhestr sgwrsio o ran y cyfranogwyr rhithiol a ffurflenni presenoldeb i'r unigolion sy'n bresennol wyneb yn wyneb.

**(iii) Sut fydd adroddiadau'n cael eu rhannu â'r rhai nad ydynt yn bresennol yn ffisegol?**

Dylid ystyried hyn ochr yn ochr â'r ystyriaethau gweledol gan y gallai fod yn ofynnol rhannu sgrin, a bydd angen i'ch elfennau gweledol fod yn ddigon mawr a chlir i alluogi hyn.

**(iv) Enwebu cynhyrchydd ar gyfer y cyfarfod**

Gall y gwaith cefndir er mwyn cynnal cyfarfodydd rhithwir a hybrid olygu llawer iawn o waith. Bydd angen i'r Cadeirydd gael cydweithiwr i fonitro'r ystafell aros, rhannu'r sgrin fel bo'n briodol, rhoi'r sylw ar siaradwyr, sefydlu a chynnal pleidlais os ydynt yn cael eu defnyddio, cynorthwyo'r rhai'n bresennol ag

unrhyw broblemau cysylltedd a chydgysylltu â darparwr y lleoliad petai unrhyw broblemau technegol yn digwydd yn ystod y cyfarfod.

**(v) Arolwg ar ôl y cyfarfod**

Ystyriwch sut y cynhelir hyn. Mae Survey Monkey yn ddewis da, ond gwnewch yn siŵr nad yw'r cwestiynau a ofynnir yn mynd yn groes i ofynion diogelu data.

**(vi) Cysylltiadau wedi eu gwifro**

Ystyriwch lle bydd offer wedi ei leoli, ac a fydd angen cysylltiad gwifren ac a yw'r ceblau'n ddigon hir? A fydd unrhyw beryglon baglu? Hefyd, os ydych chi'n defnyddio unrhyw offer Bluetooth i gysylltu i'ch gliniadur, cofiwch y gallai effeithio ar eich cysylltedd Wi-Fi.

3.2 Mae'r uchod oll yn broblemau a all ddigwydd ac arafu cyfarfod i'r graddau sy'n achosi rhwystredigaeth ddwys i'r cyfranogwyr os nad ydynt yn cael eu hystyried ymhell ymlaen llaw yn ystod eich paratoadau ac ymweliadau safle.

## 4. Y mathau o gyfarfodydd hybrid

### (a) Siaradwyr/Cyflwynwyr gwadd yn hybrid

Byddai'r math yma o gyfarfod hybrid yn golygu bod yr holl aelodau'n bresennol yn ffisegol gyda siaradwyr/cyflwynwr gwadd yn ymddangos ar y sgrin yn rhithiol ar gyfer sesiynau penodol.

**Manteision**

- Nid yw llawer o'r problemau yn ymwneud â gweithredu'r busnes yn berthnasol.
- Byddai hyn yn galluogi i'r Gymdeithas gyrraedd amrywiaeth ehangach o siaradwyr mewnol ac allanol.
- Mae'n datrys y broblem achlysurol o gyfarfodydd yn gwrthdaro sy'n atal

Aelodau'r Bwrdd Gweithredol Cenedlaethol rhag bod yn bresennol.

**Anfanteision**

- Rhaid ystyried yr holl faterion sain, gwelededd a chysylltedd yn fanwl, er eu bod yn cael eu lleihau mewn rhai meysydd trwy rinwedd y ffaith mai dim ond nifer gyfyngedig o gyfranogwyr rhithiol sydd yn y cyfarfod, yn enwedig os ydynt yn gyfranogwyr nad ydynt yn pleidleisio.

**(b) Hybrid 'un i mewn, pawb i mewn'**

Lle bo'r holl rai sy'n bresennol yn ffisegol yn y cyfarfod rhithiol trwy eu dyfeisiau eu hunain.

**Anfanteision**

- Dim angen unrhyw offer clyweled arbenigol.
- Mae gweithredu'r busnes yn haws gan fod y profiad yn cael ei rannu'n gydradd.

**Anfanteision**

- Gall y sain achosi problemau i'r rhai sy'n bresennol yn ffisegol.
- Rhaid sicrhau safon y cysylltedd yn y lleoliad.

**(c) Cymysgedd hybrid ffisegol a rhithiol**

Lle mae aelodau'n bresennol yn y man ffisegol heb eu dyfeisiau eu hunain i gael mynediad i'r cyfarfod ac aelodau'n ymuno'n rhithiol.

**Manteision**

- Cynhwysol iawn os yw wedi ei baratoi a'i gynnal gan ddefnyddio offer clywedol proffesiynol.

**Anfanteision**

- Mae'r holl faterion sain, gweledol, cysylltedd a gweithredu'r busnes yn berthnasol a rhaid eu hystyried.

- Mae'n hawdd i bethau fynd o chwith os nad yw wedi ei baratoi'n dda ac os nad yw'n defnyddio offer clyweled proffesiynol.

- Cyfyngir ar y nifer sy'n bresennol wyneb yn wyneb. Yn nodweddiadol mae lleoliadau sy'n cynnig mannau cyfarfod hybrid yn cyfyngu i tua 20 yn bresennol sy'n sicrhau bod ansawdd yr elfennau sain a gweledol yn addas ar gyfer cyfarfod llwyddiannus.

- Mae cost llogi lleoliad yn uwch pan gynhwysir cyfleusterau cyfarfod hybrid.

**(d) Darlledu digwyddiadau hybrid**

Gall digwyddiad darlledu gynnwys ffrydio'r bwrdd yn unig, neu'r gynulleidfa a'r prif fwrdd yn cael ei ffilmio a'i ffrydio. Gellir cael peth rhyngweithio gyda siaradwyr gwadd yn ymuno'n rhithiol neu gyfranogwyr sy'n ymuno o bell yn holi cwestiynau. Defnyddiwyd y dull hybrid hwn yng Nghynhadledd Flynyddol 2020.

**Manteision**

- Mae'n galluogi i nifer fawr o gyfranogwyr gymryd rhan.

**Anfanteision**

- Rhaid gwneud llawer o waith paratoi ymlaen llaw a rhaid cael ymarfer llawn cyn y digwyddiad i sicrhau bod popeth yn gweithio ar gyfer pob math o gyfranogwr.

- Drud – peidiwch â cheisio cynnal digwyddiad o'r fath am gost isel. Dylech ddefnyddio partner technegol dibynadwy bob tro a gofyn am gyngor gan y Tîm Cynadleddau a Digwyddiadau.

- Cysylltedd – mae'n rhaid i'r lleoliad fod â chysylltiad rhyngrwyd cyflym neu gallai'r digwyddiad cyfan fethu'n llwyr.

## 5. Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC)

5.1 Wrth benderfynu pa blatfformau y gellir eu defnyddio ar gyfer cyfarfodydd fideo, rhaid ystyried cydymffurfio â'r RhDDC hefyd gan fod data personol ein haelodau'n cael ei ddefnyddio er mwyn iddynt ymuno a chyfranogi. Dylid osgoi defnyddio platfformau sy'n anfon data i wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd gan fod hyn yn mynd yn groes i ofynion y RhDDC. Mae apiau megis MS Teams a Starleaf yn cydymffurfio â'r Rheoliad hwn. Yn achos Zoom, ac unrhyw Gymdeithas sydd wedi trosglwyddo ei gyfrif i fod o dan ymbarél yr undeb, mae cytundeb rhannu data'n bodoli yn awr a fydd yn cwmpasu ei ddefnyddio. Mae llawer o Gymdeithasau wedi trosglwyddo, ac os nad ydych chi wedi gwneud hynny eisoes, argymhellir eich bod yn gwneud yn awr. Bydd y trosglwyddo'n rhoi mynediad i frandio ac mae'n fwy cost effeithiol i Gymdeithasau. Anfonwch neges e-bost at nasuwt@mail.nasuwt.org.uk i gael cymorth gyda'r trosglwyddiad.

## 6. Crynodeb

6.1 Gallai fod yn demtasiwn cynnal cyfarfodydd hybrid gydag offer a brynwyd gan y gymdeithas, ond dylid ystyried y profiad i'r rhai yn y cyfarfod. Mae'n bosibl prynu uned fideo-gynadledda ansawdd da sy'n cynnwys microffonau maes a chamera ongl eang gyda thaflunydd bach am lai na £300. Fodd bynnag, gellir defnyddio hwn gyda nifer cyfyngedig iawn o unigolion yn y cyfarfod ei hun, dim mwy nag wyth, a llai os oes gwagle rhyngddynt ar gyfer diogelwch rhag COVID-19, a bydd cyfyngiadau ar yr ansawdd hefyd. Ni fydd gwario llawer mwy na hyn yn gwella'r sefyllfa, a gallai arwain at fuddsoddiad drud mewn offer na fydd yn cael ei ddefnyddio'n aml. Ystyriwch yr holl gyngor uchod, os gwelwch yn dda, wrth wneud unrhyw ddewisiadau. Ceir rhestr o ddewisiadau offer potensial isod.

6.2 Gallai fod yn ddewis addas ar gyfer Cymdeithasau gwledig bach iawn heb leoliadau cyfarfodydd hybrid gerllaw, ond dylid ei brofi cyn ei brynu os yw'n bosibl.

6.3 Mae'r offer sy'n ofynnol ar gyfer cyfarfod hybrid ansawdd da'n costio degau o filoedd o bunnoedd a rhaid cael y seilwaith i'w gefnogi. Mae llawer o westai'n

buddsoddi mewn cyfleusterau o'r fath, ond mae cost llogi'r ystafell yn ddrutach o ganlyniad i hynny.

6.4 Ni ddylid ystyried hyn fel ffactor gwaharddol wrth benderfynu ar raglen o gyfarfodydd sy'n defnyddio dewisiadau hybrid. Y ffactor allweddol bob tro yw profiad yr aelodau a'u galluogi i gyfranogi. Gwnaiff lleoliadau drafod costau bob amser, a'u lleihau'n sylweddol yn aml iawn, yn enwedig os oes potensial o gael archebion cyson. Felly peidiwch ag ofni ymateb i'r dyfynbris cyntaf gyda chynnig llawer is sy'n unol â'ch cyllideb.

6.5 Cofiwch, pa bynnag opsiynau rydych chi'n eu dewis ar gyfer rhaglen cyfarfodydd hybrid, profiad yr aelodau yw'r ffactor hanfodol bwysig er mwyn sicrhau presenoldeb yn y dyfodol a sicrhau cynhwysiant, amrywiaeth a democratiaeth yn yr Undeb. Dylech baratoi'n drwyadl a rhoi prawf ar eich offer ymlaen llaw bob tro. Gofynnwch am adborth gan y cyfranogwyr bob tro hefyd.